

PWMP CHWISTRELL T34 - Taflen Gwybodaeth Claf yn yr Ysbyty.



Bydd y daflen hon yn esbonio beth ydi'r pwmp, sut mae'n gweithio, a beth ddylech wneud os oes gennych ofidion neu bryderon.

Beth yw pwmp chwistrell T34?

Dyfais fach dawel sydd yn rhedeg ar fatri yw'r pwmp chwistrell T34. Bydd chwistrell sydd yn cynnwys meddyginiaeth yn eistedd ar ben y pwmp. Ynghlwm i'r chwistrell yma mae tiwb mân sydd ynghlwm i diwb bach plastig sydd yn eistedd o dan y croen. Gall y tiwb plastig aros o dan y croen i fyny at 3 diwrnod, a bydd hwn yn cael eu gwirio gan y nyrs sawl gwaith y dydd. Mae'r pwmp yn gwithio'r feddyginiaeth dros 24 awr.

Pam bod angen pwmp chwistrell?

Mae pwmp chwistrell yn ddefnyddiol iawn i drin symptomau, ar unrhyw adeg o salwch neu driniaeth, os na ellir cymryd meddyginiaeth bwysig drwy'r geg. Mae nifer o resymau eraill pan na ellir cymryd meddyginiaeth drwy'r geg, megis:

- Bod yn rhy wan i lyncu meddygaeth.
- Cyfog, neu chwydu.

- Nid yw'r corff yn gallu amsugno'r tabledi neu foddion hylif yn effeithiol.
- Symptomau sydd yn anodd ei rheoli.

Pa feddyginiaeth sydd yn y pwmp chwistrell?

Rhagnodir y math o feddyginiaeth a roir yn y chwistrell gan y meddyg ar y ward, a bydd yn dibynnu ar ba symptomau y profir. Bydd dos a lefelau'r feddyginiaeth yn cael eu cyfrifo ar wahan fesul bob unigolyn.

Gellir trin rhai o'r symptomau gan ddefnyddio meddyginiaethau yn y pwmp chwistrell, megis:

- Poen
- Cyfog.
- Chwydu.
- Bod yn aflonydd a phryderus.
- Anadlu'n swnllyd.

Dechrau'r pwmp chwistrell.

Y nyrs fydd yn dechrau'r pwmp, ac yn dod a'r offer sydd eisiau. Y nyrs fydd hefyd yn rhaglenni'r pwmp i ddarparu'r feddyginiaeth yn araf dros gyfnod o 24 awr. Bydd yn llenwi'r chwistrell newydd gyda'r feddyginiaeth, yn gwirio'r pwmp, y tiwb, a'r safle ble mae'r feddyginiaeth yn cael eu rhoi dan y croen. Byddant hefyd yn gwirio bod lefel y dos yn iawn.

Gall gymryd sawl awr nes i'r feddyginiaeth weithio, felly wrth ddechrau'r pwmp, gall y nyrs rhoi pigiad i drin unrhyw symptomau a geir.

Mae'r pwmp chwistrell yn gweithio pan fydd y golau gwyrdd yn fflachio yn rheolaidd ac yn dangos "Pump delivering" ar y sgrin.

Edrych ar ol y pwmp chwistrell.

- Cadwch ef allan o'r haul a pheidiwch gadael iddo fynd yn dwym.
- Gwnewch eich gorau i arbed y pwmp rhag cwmpo.

- Cadwch ef yn sych

Oes posibl cymryd cael cawod neu fath?

Gallwch, ond mae'n bwysig cadw'r pwmp a'r gorchudd yn sych. Siaradwch gyda'r nyrs am sut i wneud hyn.

Galwch y nyrs os:

- Yw'r pwmp chwistrell yn mynd yn wlyb.
- Mae'r symptomau dal i fodoli neu newid, falle bydd eisiau mwy o feddyginiaeth
- Mae'r pwmp wedi cwmpo.
- Mae'r croen o gwmpas y tiwb plastig yn goch, wedi chwyddo neu yn boenus.
- Mae'r tiwb wedi dod allan.
- Mae larwm y pwmp yn canu.

Os yw larwm y pwmp yn canu, peidiwch â thrio cyweirio'r pwmp eich hun, galwch y nyrs er mwyn iddynt ei wirio.

Mae'n naturiol i deimlo'n nerfus wrth ddechrau triniaeth newydd. Os oes gennych ofidion neu bryderon ynglŷn â pham mae eisiau pwmp chwistrell, neu unrhyw gwestiwn arall, mae'n bwysig bod chi'n gofyn i'r nyrs a fydd yn gallu esbonio a helpu.



Swansea Bay University Health Board

Authorisation Form for Publication onto COIN

PLEASE ENSURE THAT ALL QUESTIONS ARE ANSWERED – IF NOT APPLICABLE PLEASE PUT N/A

COIN ID.	CID4566(a&b)
Document Title.	T34 Syringe Pump – Hospital Patient Information Leaflet (English and Welsh)
Name of Author.	Eleri Lloyd Ash, Clinical Nurse Specialist in Palliative Care
Name of Lead Pharmacist.	N/A
Is the document New, Revised or a Review of a previous version.	New
Where on COIN do you want the document to be published.	Palliative and End of Life Care – Patient and Carer Information
Is the document relevant to the GP Portal.	No
Sign to confirm that the document has been authorised by an approved governance process in a specialty or delivery unit.	Melissa Birchall, Palliative Care Matron.
If NICE guidance been considered/referenced when producing this document, please provide the title or reference number.	No
Please provide a brief description/abstract of the document.	Patient Information Leaflet for patients using a T34 Syringe Pump whilst in hospital.
Equality Statement. <i>(All policies and procedures need to comply with CID76 Policy for the Management of Health Board Wide Policies, Procedures and other Written Control Documents (WCD)).</i>	N/A
Published Date.	April 2023
Last Reviewed Date.	N/A
Next Review Due/Expiry Date.	April 2025